**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon**
**Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P/VG/4593/17

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

19 Rhagfyr 2017

Annwyl Dai

Roedd ymchwiliad y Pwyllgor i recriwtio meddygol a'r adroddiad dilynol yn cynnwys yr argymhelliad:

*"Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor erbyn diwedd 2017 (ac yn flynyddol wedi hynny) am effaith y cynllun cymhelliant i feddygon teulu, ac archwilio ac ymgymryd â gwaith i ganfod opsiynau posibl ar gyfer cynlluniau cymhelliant ariannol neu rai eraill tebyg i ddenu a chadw darpar feddygon a rhai sy'n ymarfer."* (argymhelliad 12).

Derbyniais yr argymhelliad hwn yn fy ymateb i'r adroddiad ym mis Awst.

Cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig ar 20 Tachwedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar ymgyrch Hyfforddi Gweithio Byw a'r lleoedd cysylltiedig sydd wedi cael eu llenwi ar gyfer hyfforddiant ymarferwyr cyffredinol yng Nghymru. Gellir gweld y datganiad trwy'r ddolen isod;
http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2017/gptrainingupdate/?skip=1&lang=cy

Yn ogystal â'r wybodaeth a ddarperir yn y datganiad, mae'r tabl canlynol yn dangos y lleoedd sydd wedi'u llenwi ym maes hyfforddi ymarferwyr cyffredinol ar draws y pum ardal hyfforddi a gwmpesir gan y cynllun hyfforddi wedi'i dargedu, gan gynnwys y ffigurau ar gyfer 2017 – h.y. ers i ymgyrch Hyfforddi Gweithio Byw gael ei chyflwyno ac ers i'r dull gweithredu a seilir ar gymhelliant gael ei gyflwyno.

| **Cynllun Hyfforddi** | **Nifer y Lleoedd Hyfforddi** | **2013** | **2014** | **2015** | **2016** | **2017** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberystwyth | 6 | 33% | 50% | 0% | 17% | 100% |
| Dyffryn Clwyd | 8 | 50% | 50% | 50% | 100% | 50% |
| Sir Benfro | 6 | 100% | 67% | 33% | 0% | 100% |
| Wrecsam | 8 | 88% | 63% | 50% | 88% | 112% |
| Bangor | 8 | 100% | 63% | 100% | 63% | 150% |

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r tabl yn dangos gwelliant nodedig ym mhedair o'r pum ardal sy'n destun cymhelliant. Bydd fy swyddogion yn gweithio gyda Deoniaeth Cymru er mwyn parhau i fonitro'r sefyllfa yn ardal hyfforddi Dyffryn Clwyd wrth i recriwtio i garfan 2018 fynd yn ei flaen.

Byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf bob blwyddyn i'r Pwyllgor am effaith cynlluniau cymhelliant, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor.

Yn gywir

**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport